

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

Practis Deintyddol Cedars/Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr  
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf? .....	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:	Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal
Hybu gwelliant:	Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da
Dylanwadu ar bolisi a safonau:	Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cedars yn 189 Heol Fidlas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5LZ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 23 Medi 2021.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

At ei gilydd, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Cedars yn darparu gwasanaeth proffesiynol a chyfeillgar i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o weithdrefnau atal a rheoli heintiau da i amddiffyn y cleifion a'r staff.

Roedd yr adeilad wedi'i gadw at safon da ac roedd systemau rheoli cadarn ar waith i gynnal amgylchedd diogel.

Gwnaethom ganfod bod rhai gwelliannau yn angenrheidiol mewn perthynas ag archwilio clinigol er mwyn sicrhau bod yr arferion da presennol yn cael eu cynnal a'u gwella lle y bo'n bosibl.

Rhaid i'r practis hefyd sicrhau bod yr holl staff yn bodloni'r gofynion gorfodol ar gyfer cyflogaeth o fewn lleoliad clinigol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn hapus iawn â'r gwasanaeth
- Roedd gan y cleifion fynediad at wybodaeth am gadw eu ceg yn iach
- Roedd y staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn gefnogol.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod prosesau archwilio mwy cadarn a mynych ar waith
- Rhaid i'r practis gael gweithdrefn ar waith i sicrhau y gellir cyfeirio cleifion sydd â materion hygrychedd i rywle arall i gael triniaeth sy'n lleol iddynt
- Rhaid i'r practis sicrhau nad yw'r ceblau ar gyfer yr uned sugno yn y brif ystafell driniaeth yn gallu achosi perygl i gleifion a staff.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Cedars yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff a oedd yn cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol gymwysedig a rheolwr ymarfer sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwysedig. Roedd gan y practis ddeintydd sy'n gosod mewnbliadau ymweliadol<sup>1</sup>.

Roedd yr arfer hwn yn aros am awdurdodiad contract y GIG ac ar hyn o bryd mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol a phreifat yn ogystal â gwasanaethau orthodontig a mewnbliannu deintyddol arbenigol.

---

<sup>1</sup> Mae deintydd sy'n gosod mewnbliadau yn ddeintydd sydd wedi cael hyfforddiant pellach mewn mewnbliadau deintyddol. Dyma'r rhan o ddeintyddiaeth sy'n ymwneud â rhoi prosthesis dodi sydd wedi'i osod yn uniongyrchol i asgwrn yr ên uchaf neu isaf.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod Practis Deintyddol Cedars yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd un o holiaduron AGIC o'r farn bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch tra'u bod yn y practis deintyddol. Gwelsom staff yn bod yn gyfeillgar ac yn groesawgar i'r cleifion.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig i helpu cleifion i wneud dewisiadau da ynghylch iechyd y geg ac i esbonio opsiynau triniaethau ymhellach.

Fodd bynnag, gwelsom na allai rhai cleifion sydd ag anawsterau symudedd gael mynediad llawn i'r ddeintyddfa. Nid oedd gan y practis weithdrefn ar waith i sicrhau y gallai cleifion o'r fath gael gofal deintyddol mewn practis arall gerllaw.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 21 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Gofal rhagorol”*

*“Staff cyfeillgar, yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol. Gwasanaeth cyflym”*

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mwy o apwyntiadau ar gael”*

*“Cynnig gwasanaeth GIG hyd yn oed os yw hynny i blant yn unig”*



## Cadw'n iach

### Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gan y practis stoc dda o daflenni gwybodaeth i gleifion ynglŷn ag iechyd y geg. Roedd pob claf heblaw un a gwblhaodd holiadur gan AGIC wedi dweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw'r geg a'r dannedd yn iach. Cefnogwyd hyn gan y cofnodion deintyddol a welsom. Roedd tystiolaeth yn y cofnodion yn dangos bod gwybodaeth am iechyd y geg, cyngor ar ddeiet, rhoi'r gorau i ysmegu ac effeithiau alcohol a thybaco ar iechyd y geg yn cael eu rhoi i'r cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod o'r farn eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth ddeintyddol.

### Gofal ag urddas

Heb eithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom gleifion yn cael eu croesawu gan staff y dderbynfa mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar ac yn cael eu cyfarch dros y ffôn. Cadarnhaodd y staff y byddent yn cynnal sgwrs mewn swyddfa gerllaw wrth ymyl yr ystafell aros os byddai angen siarad â chlaf yn breifat.

Gwelsom fod y drysau wedi'u cau yn ystod apwyntiadau, er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Darparodd y practis dystiolaeth o bolisiâu priodol i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod y cod moeseg, poster practisau proffesiynol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol <sup>2</sup> wedi'i arddangos mewn lle amlwg yn ystafell aros y cleifion.

---

<sup>2</sup> Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r corff sy'n gyfrifol am gofrestru gweithwyr proffesiynol deintyddol ac sy'n cynnal safonau proffesiynol sy'n ymwneud â hyfforddiant ac addysg barhaus y tîm deintyddol.

## Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi'u helpu i ddeall eu hanghenion o ran triniaeth a'r opsiynau oedd ar gael iddynt mewn ffordd briodol. Nododd y cleifion i gyd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn gwybod sut i gysylltu â'r practis y tu allan i oriau gwaith pe bai problem ddeintyddol daer ganddynt.

Gwelsom fod gwybodaeth am gostau triniaeth ddeintyddol breifat wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Gwelsom dystiolaeth hefyd o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis, yn cynnwys polisi cydsyniad cyfredol a pholisi derbyn cleifion newydd.

Roedd copïau o'r taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ystafell aros ac yn y dderbynfa. Roedd y daflen gwybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion fod y staff wedi holi beth oedd eu dewis iaith. Dywedodd nifer fach mai eu dewis iaith oedd y Gymraeg.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu dros y ffôn drwy'r Bwrdd Iechyd Lleol i gleifion a nododd nad Saesneg oedd eu dewis iaith.

Ar adeg yr arolygiad nid oedd y practis yn cynnig gwasanaeth dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ac nid oedd ganddo unrhyw hysbysiadau na gwybodaeth i annog cleifion a fyddai'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny.

## Gofal amserol

**Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a holwyd ei bod yn "hawdd" neu'n "hawdd iawn" trefnu apwyntiad yn y practis. Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn gallu cael apwyntiad mewn da bryd. Dywedodd staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i glaf sy'n aros am apwyntiad pe byddai deintydd**

## **yn rhedeg yn hwyr. Os yw'n briodol, byddent yn cynnig apwyntiad arall heb i'r claf fynd i unrhyw gostau ychwanegol.**

Roedd gan y practis nifer o apwyntiadau "brys" penodedig bob dydd sydd ar gael i gleifion sydd angen gweld deintydd oherwydd problem ddeintyddol frys. Mae manylion ynghylch sut y gall y cleifion gael gofal deintyddol brys pan fydd y practis ar gau ar gael yn y daflen i gleifion ac ar neges peiriant ateb y practis. Mae rhifau ffôn ar gyfer argyfwng y tu allan i oriau hefyd i'w gweld wrth fynedfa'r practis. Fodd bynnag, dywedodd bron i chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent yn gwybod sut i drefnu apwyntiad y tu allan i oriau ar gyfer problem ddeintyddol frys. O ystyried canfyddiadau'r holiadur mae'n bosibl yr hoffai'r practis ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod eu cleifion yn ymwybodol o sut i gael gofal deintyddol brys pan fydd angen.

### **Gofal unigol**

#### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dyweddodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff bob amser yn holi cwestiynau iddynt am eu hanes meddygol pan fyddant yn dod i'r practis. Cadarnhawyd hyn iddynt pan archwiliwyd sampl o gofnodion y cleifion. Canfuom fod yr hanes meddygol cychwynnol a diweddaedig wedi cael eu cofnodi'n gyson ac yn briodol. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y canllawiau proffesiynol er mwyn sicrhau bod y tîm deintyddol yn ymwybodol o ryngweithiadau posibl rhwng y driniaeth ddeintyddol a wnaed ac unrhyw gyflyrau meddygol a oedd gan y claf eisoes, ac yn eu deall.

Gwnaethom gadarnhau hefyd fod cynllunio effeithiol o ran triniaeth yn cael eu cynllunio yng nghofnodion gofal deintyddol y cleifion. Dangosodd yr holl gofnodion gofal deintyddol a welsom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn cyngor mewn perthynas â gwella gofal iechyd y geg.

#### **Hawliau pobl**

Roedd gan y practis Bolisi Cyfle Cyfartal ar waith a oedd yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod gan gleifion fynediad at driniaeth deg. Yn unol â Deddf

Cydraddoldeb 2010, roedd y polisi yn cydnabod yr angen i roi triniaeth a gwasanaethau i bob claf waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig<sup>3</sup>.

Roedd gan y practis bolisi derbyn cleifion newydd fel y bo'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y polisi hwn yn amlinellu trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd i'r practis, cymhwysedd a mynediad at driniaeth. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys yr hyn y gallai'r cleifion ei ddisgwyl gan y practis.

Wrth ystyried mynediad ffisegol i'r practis, gwelsom fod archwiliad mynediad anabledd cynhwysfawr wedi'i gynnal yn ddiweddar. Diben hyn oedd nodi meysydd o anhawster i gleifion y gallai mynediad fod yn heriol iddynt. Roedd yr archwiliad yn cynnwys cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys dyddiadau targed ar gyfer ei gwblhau. Roedd digon o le i i gleifion barcio ar y strydoedd gerllaw ac roedd ramp mynediad i'r practis ar gael hefyd. Gan fod yr unig ystafell driniaeth i fyny'r grisiau ar y llawr cyntaf, roedd y practis wedi gosod lifft grisiau i helpu cleifion sydd ag anawsterau hygyrchedd. Roedd desg y fynedfa hefyd yn isel, ac roedd gan gleifion fynediad at doiled ar y llawr daear. Fodd bynnag, am nad oedd modd i staff y practis symud cadeiriau olwyn y cleifion yn ddiogel o'r llawr daear i'r llawr cyntaf, nid oedd modd i gleifion sy'n ddibynnol ar gadair olwyn gael triniaeth yn y practis. Nid oedd yr anhawster hygyrchedd hwn wedi'i grybwyll yn natganiad o ddiben y practis, y daflen wybodaeth i gleifion nac yn y polisi derbyn cleifion newydd ac felly nid oedd yn glir i ddarpar gleifion. Yn ogystal, nid oedd y polisi derbyn cleifion newydd yn cynnwys cyngor i staff ynghylch y trefniadau i gleifion y mae angen triniaeth arnynt ond na allant gael mynediad i'r practis oherwydd yr her hon o ran hygyrchedd.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y datganiad o ddiben, y daflen wybodaeth i gleifion a'r polisi derbyn cleifion newydd yn cael eu diweddarau i sicrhau bod cleifion sy'n

---

<sup>3</sup> Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodweddion gwarchoddedig. <https://www.equalityhumanrights.com/en/mission-wales>

ddibynnol ar gadeiriau olwyn yn ymwybodol o'r heriau o ran mynediad yn y practis.

- Mae'r polisi derbyn cleifion newydd yn cynnwys canllaw i staff o ran beth i'w wneud os na all y practis dderbyn claf oherwydd yr heriau mewn perthynas â mynediad e.e. eu cyfeirio at bractis arall.

### Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y practis wedi cael adborth gan gleifion. Cawsom esiamplau o holiaduron boddhad a phrofiad y cleifion. Roedd blwch sylwadau ac awgrymiadau yn y dderbynfa. Roedd cleifion hefyd yn cael eu hannog i adolygu'r practis a'u profiad ar-lein a darparu adborth ar lafar.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi a gweithdrefnau cwyno cynhwysfawr a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion penodol a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd hyn ar gael i gleifion ar hysbysfwrdd yn y dderbynfa ac yn amlinellu sut y gallai cleifion gwyno'n ffurfiol i'r practis. Roedd manylion o ran sut i uwchgyfeirio cwyn i AGIC yn y polisi. Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad AGIC wedi'i gynnwys. Yn ogystal, gan fod y practis yn aros am awdurdodiad contract y GIG, byddai'n fuddiol cynnwys manylion gweithdrefn "Gweithio i Wella"<sup>4</sup> y GIG hefyd. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cwynion yn ymwneud â thriniaeth y GIG yn unig.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau ei bolisi cwynion er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

---

<sup>4</sup> "Gweithio i Wella" yw gwasanaeth cwynion a phryderon y GIG sydd ar gael drwy'r bwrdd iechyd lleol i gleifion sy'n derbyn triniaeth neu ofal y GIG.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod amgylchedd y practis deintyddol ac effeithiol, bod digon o offer yn o a bod mesurau atal a rheoli heintiau effeithio ar waith.

Roedd y cofnodion deintyddol clinigol o safon uchel ac roedd gweithdrefnau effeithiol ar waith i weinyddu a rhagnodi meddyginiaethau.

Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd y staff yn ymwybodol o sut i adrodd adwaith niweidiol i feddyginiaeth ac mae angen gwneud gwaith archwilio mwy cadarn i sicrhau bod y safonau uchel cyfredol yn cael eu cynnal.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar gael i sicrhau iechyd a llesiant y staff a'r ymwelwyr i'r practis. Roedd tu allan y practis wedi'i gadw'n dda ac roedd y tu mewn yn lân ac yn olau. Gwelsom ystod o bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol i sicrhau bod y practis yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Roeddent wedi cael eu llofnodi gan bob aelod o staff ac yn cynnwys polisi ansawdd, cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch yn ogystal ag asesiad risg i'r practis.

Roedd gan y practis bolisi ac asesiad risg tân a oedd yn gyfredol ac roedd nifer o ddiffoddwyr tân ar ddau lawr y practis. Roeddent wedi cael eu hasesu a'u cynnal a'u cadw bob chwe mis gan y gwasanaeth tân lleol ac roeddent wedi cael eu gosod i'r waliau yn briodol. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant tân ac roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer gwacau'r practis pe bai tân. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u marcio'n glir gyda'r arwyddion priodol ac roedd arwyddion

dim ysmegu wedi'u harddangos i atgoffa staff ac ymwelwyr o'r ddeddfwriaeth dim ysmegu ar y safle.

Roedd y practis yn gweithredu polisi drws dan glo i gleifion, sy'n golygu mai dim ond y cleifion oedd ag apwyntiad a allai ddod i'r safle. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael wrth fynd i mewn i'r practis a gofynnwyd i gleifion oedd yn ymweld wisgo masgiau. Roedd masgiau ar gael hefyd i gleifion heb fasiau. Byddai ymwelwyr â'r practis yn cael gwirio'u tymheredd ac roedd teganau a chylchgronau wedi cael eu tynnu o'r ystafell aros yn unol â chanllawiau COVID-19.

Roedd gan y practis dri aelod o staff cymorth cyntaf penodedig a gwelsom dystiolaeth o becyn cymorth cyntaf hawdd ei gyrraedd i'r rhai a fyddai angen ei ddefnyddio. Roedd digon o ardaloedd addas yn y practis i wisgo a thynnu dillad gwaith.

Roedd gan y practis bolisi parhad busnes cyfredol ar waith a oedd wedi'i lofnodi gan bob aelod o staff. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cynnwys y rhifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwadau a ddefnyddir gan y practis. Pe bai tarfiad sylweddol ar y gwasanaeth byddai angen i'r staff allu cael gafael ar y rhifau hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallai'r gwasanaeth barhau i weithredu a darparu gwasanaeth i gleifion heb fawr ddim amhariadau.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cofrestredig ychwanegol manylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwadau i'r cynllun parhad busnes i gynnwys rhifau ffôn mewn argyfwng.

#### Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis fesurau atal a rheoli heintiau ar waith ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) offer a chyfarpar deintyddol. Roedd hyn yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>5</sup>.

---

<sup>5</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodol. Roedd hon yn lân, wedi'i threfnu'n dda ac ar yr un llaw â'r ddeintyddfa. Roedd llif gwaith brwnt i lân ar waith i sicrhau nad oedd offer glân yn cael eu halogi. Gwelsom dystiolaeth fod blychau diogel ar gael i gludo offer wedi'u halogi o'r ddeintyddfa i'r ystafell ddadheintio i osgoi achosion o groes-heintio.

Roedd offer yn cael eu glanhau cyn eu sterileiddio mewn awtoclaf<sup>6</sup> gan ddefnyddio glanhawr uwchsonig<sup>7</sup> neu'n cael eu sgrwbio â llaw gan ddefnyddio glanedydd. Yna cafodd yr offer eu harchwilio o dan olau cryf i sicrhau eu bod yn ffisegol lân. Gwelsom dystiolaeth fod y glanhawr uwchsonig a'r awtoclaf yn cael eu gwirio'n ddyddiol ac yn wythnosol a'u cofnodi i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Yn ogystal, roedd tystysgrif ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr awtoclaf.

Gwelsom fod gan ystafell driniaeth y ddeintyddfa restr wirio ddyddiol oedd wedi'i haddasu i sicrhau bod digon o amser i lanhau'n briodol o ganlyniad i'r pandemig. Roedd hyn yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru<sup>8</sup>.

Mewn ymateb i'r pandemig, gwelsom fod yr holl eitemau diangen wedi'u symud o ystafell driniaeth y ddeintyddfa er mwyn iddynt lanhau'n effeithiol. Dywedwyd wrthym y byddai'r offer yn cael ei baratoi cyn y driniaeth a gwnaethom gadarnhau bod amser digonol wedi'i glustnodi rhwng cleifion. Roedd hyn er mwyn sicrhau

---

<sup>6</sup> Cyfarpar a ddefnyddir i dadheintio offer deintyddol yw awtoclaf. Mae awtoclaf yn defnyddio cyfuniad o stem, gwres a gwasgedd i sicrhau bod cyfarpar a dyfeisiau meddygol a deintyddol wedi'u diheintio.

<sup>7</sup>Mae glanhawyr uwchsonig yn ddull o lanhau offer a chyfarpar deintyddol cyn eu sterileiddio. Maent yn defnyddio tonnau a glanedydd i dynnu gweddillion o'r offer ac maent yn aml yn cael eu defnyddio mewn cyfuniad â glanhau â llaw er mwyn sicrhau bod darnau bach yn weledol lân ac yn barod i'w sterileiddio.

<sup>8</sup> Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Rheolaeth Ddeintyddol Cleifion nad ydynt yn gleifion COVID yng Nghymru.



bod cyfnod segur<sup>9</sup> yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau<sup>10</sup> a bod modd glanhau'r ystafell driniaeth yn drylwyr gan ddefnyddio deunyddiau glanhau cymeradwy. Cawsom dystiolaeth o'r contractau ar gyfer gwaredu ar wastraff peryglus a chlinigol a gwelsom fod y gwastraff hwn yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu.

Wrth edrych ar gofnodion staff gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi cael eu himiwneiddio a'u bod wedi'u hamddiffyn yn erbyn Hepatitis B. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff sy'n ymgymryd â gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau wedi cael prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP3<sup>1112</sup>. Gwelsom staff yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir <sup>13</sup>bob amser yn y practis.

Gwelsom fod gan y practis bolisi a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer <sup>14</sup>anafiadau oherwydd nodwyddau a brechiadau ar waith. Dywedwyd wrthym y byddai aelod o staff yn cael cymorth gan adran iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd lleol pe bai'n cael anaf oherwydd nodwydd.

---

<sup>9</sup> Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau sy'n caniatáu i unrhyw ddefnydd setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

<sup>10</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

<sup>11</sup> Mae prawf ffitio yn ddull o wirio bod cyfarpar diogelu personol tynn yn gweddu i wyneb yr aelod o staff ac yn selio'r wyneb yn ddigonol

<sup>12</sup> Nodwyd yr angen i wisgo masg FFP3 (amddiffyniad anadlol ar ffurf masg untro ar gyfer y geg a'r trwyn) trwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i amddiffyn rhag pathogenau a gludir yn anadlol. Er mwyn defnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r staff perthnasol gael prawf ffitio'r wyneb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael masg sy'n ffitio'r wyneb mewn ffordd addas a'i fod yn gweithredu i'r effeithlonrwydd gofynnol.

<sup>13</sup> Mae cyfarpar diogelu personol yn gyfarpar a fydd yn amddiffyn y defnyddiwr yn erbyn risgiau iechyd a diogelwch yn y gwaith

<sup>14</sup> Mae anaf yn sgil brechiad neu nodwydd yn anaf sy'n bigyn treiddiol oherwydd nodwydd (neu wrthrych miniog arall) a allai olygu bod unigolyn yn dod i gysylltiad â gwaed neu hylif corfforol arall.

Roedd y practis yn cwblhau archwiliadau atal a rheoli heintiau yn rheolaidd ac roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar gyfer gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ym maes deintyddiaeth.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom gadarnhau bod gan y practis gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a chyfarpar dadebru mewn argyfwng a oedd yn bodloni safonau'r Cyngor Dadebru (DU)<sup>15</sup>. Roedd yr eitemau hyn wedi'u storio'n briodol. Gwnaethom nodi hefyd fod silindr ocsigen y practis wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal gwiriadau rheolaidd o'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a bod y gwiriadau hyn wedi cael eu logio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth o weithdrefn offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng, fel bod eitemau a oedd wedi dod i ben yn cael eu hailstocio.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol yn unol â'r rheoliadau cenedlaethol ar gyfer dadebru. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant diweddar ar gyfer dadebru cardio-pwlmonaidd mewn argyfwng<sup>16</sup> yn ogystal â hyfforddiant mewn anaffylacsis.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio mewn man diogel dynodedig ac roedd y feddyginiaeth a roddwyd i'r claf yn cael eu cofnodi yn y cofnodion gofal deintyddol yn cynnwys rhifau'r lot a dyddiadau dod i ben. Rhoddwyd gwybodaeth lafar i'r claf am y feddyginiaeth a roddwyd a chafodd ei chofnodi yn y cofnod gofal deintyddol. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu clou'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Pan holwyd y staff, dywedwyd wrthym nad oeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn i adrodd am unrhyw adweithiau anffafriol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol. Mae'n ofynnol iddynt adrodd i'r Asiantaeth Rheoleiddio

---

<sup>15</sup> <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

<sup>16</sup> Mae dadebru cardio-pwlmonaidd yn weithdrefn mewn argyfwng i unigolyn y mae ei galon wedi stopio neu unigolyn nad yw'n anadlu mwyach. Gall dadebru cardio-pwlmonaidd gynnal cylchrediad y gwaed ac anadlu [hyd nes bod cymorth meddygol brys](#) yn cyrraedd.

Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn<sup>17</sup>. Mae hon yn weithdrefn bwysig a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i sicrhau bod cynhyrchion gofal iechyd yn ddigon diogel i'r cleifion a'r sawl sy'n eu defnyddio.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant priodol a'u bod yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd am unrhyw adwaith anffafriol i gyffuriau i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd gan ddefnyddio'r cynllun cerdyn melyn ar-lein.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwnaethom ganfod bod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau clir ar gyfer hyrwyddo ac amddiffyn diogelwch a llesiant plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y bolisiau yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol o fewn yr ardal. Roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael i'r staff drwy ap ffôn symudol a dywedwyd wrthym y byddai copi'n cael ei argraffu yn ôl yr angen.

Yr arweinydd diogelu ar gyfer y practis oedd aelod o'r tîm deintyddol a oedd yn goruchwyllo materion yn ymwneud â diogelu. Dangosodd yr arweinydd diogelu ddealltwriaeth gadarn o oblygiadau'r practis pe bai claf yn cwyno. Gwelsom dystiolaeth fod holl staff y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant diogelu hyd at lefel briodol. Roedd yr arweinydd diogelu wedi cael hyfforddiant ar lefel uwch i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom arolygu'r cyfleusterau clinigol ac ardaloedd eraill o'r practis a chanfod bod yr offer deintyddol mewn cyflwr rhagorol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod gan yr ystafell driniaeth yr offer priodol i gleifion a'r tîm o ddeintyddion.

---

<sup>17</sup> <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (peledr-X) yn ddiogel a chanfod bod y practis yn bodloni'r safonau ac yn dilyn y canllawiau a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (2017).

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant sy'n angenrheidiol i'w rôl a bod polisi ar ymbelydredd gan y practis. Roedd gan y practis reolau lleol ar waith yn gysylltiedig â'r offer sy'n cael ei ddefnyddio yn y ddeintyddfa. Roeddent wedi'u harddangos ger yr offer, a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff er mwyn sicrhau bod cysylltiad ag ymbelydredd yn gyfyngedig. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni cynnal a chadw offer radiograffig. Roedd gan y practis ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a oedd yn cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer cynnal a chadw'r offer a'i ddefnyddio'n ddiogel.

Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau ar brosesau radiograffig a sicrwydd ansawdd. Er mwyn hyrwyddo dulliau gwella ansawdd, byddem yn awgrymu bod y practis yn defnyddio dull archwilio ymbelydredd Ïoneiddio fel yr un sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)<sup>18</sup>.

Yn ystod yr arolygiad gwelsom fod uned sugno wedi cael ei gosod yn yr ystafell driniaeth a oedd yn golygu bod sawl cebl drydanol yn rhedeg ar draws y llawr yn yr ystafell. Nodwyd bod hyn yn berygl baglu sylweddol i staff a chleifion sy'n defnyddio'r ystafell driniaeth ac y bydd hefyd yn arafu'r gwaith o lanhau llawr yr ystafell driniaeth. Rhaid mynd ati i gael gwared ar y perygl a sicrhau y gellir glanhau'r llawr yn effeithiol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y perygl baglu a achosir gan y cebl i'r uned sugno yn yr ystafell driniaeth yn cael ei gosod yn ddiogel.

---

<sup>18</sup> Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) sy'n gyfrifol am addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau priodol a nodwyd yn y datganiad o ddiben sy'n ymwneud â derbyn, asesu, rhoi diagnosis a thrin cleifion newydd. Roedd hyn hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion<sup>19</sup>.

Gwelsom dystiolaeth yn ystod y dydd fod sylw dyledus yn cael ei rhoi i ganllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol ac yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal<sup>20</sup>.

Wrth adolygu cofnodion gofal deintyddol y cleifion, gwnaethom sylwi nad oedd y practis yn defnyddio rhestr wirio y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol<sup>21</sup>. Byddem yn argymhell bod y practis yn defnyddio'r rhain lle bynnag y bo triniaethau llawfeddygol neu echdyniadau syml yn cael eu cynnal yn y practis. Mae hyn yn sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu i'r cleifion bob amser.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r bod rhestrau gwirio Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio wrth ymgymryd â thriniaethau llawfeddygol neu echdyniadau syml.

---

<sup>19</sup> Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch casglu barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.

<sup>20</sup> <https://www.nice.org.uk/.../oral-and-dental-health>

<sup>21</sup> "Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol - mae'r rhain yn rhestrau gwirio sydd wedi'i llunio i sicrhau nad yw "digwyddiadau byth" (ee y dant anghywir yn cael ei dynnu) yn digwydd o gwbl

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom ganfod fod y practis yn ymgymryd â nifer o weithgareddau archwilio clinigol. Roeddent yn cynnwys archwiliad mewnol diweddar o gadw cofnodion ac archwilio rheoli heintiau, a oedd wedi'u cwblhau i safon dda.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf i gwblhau archwiliad pellach, yn cynnwys defnyddio offer gwella ansawdd AaGIC a'r matrices aeddfedwydd deintyddol<sup>22</sup>. Byddem yn argymhell bod y practis yn creu amserlen archwilio, sy'n cynnwys archwiliad o roi'r gorau i ysmegu ac archwiliad o ragnodi gwrthfotigau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn parhau i sicrhau'r gofal gorau posibl i gleifion. Byddem hefyd yn argymhell bod y practis yn defnyddio'r system matrices aeddfedwydd a ddarperir gan AaGIC i sicrhau gwelliant parhaus.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r tîm cofrestredig sicrhau ei fod yn:

- Credu amserlen archwilio, sy'n cynnwys archwiliad o roi'r gorau i ysmegu ac archwiliad o ragnodi.

## Llywodraethu Gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu

Gwelsom fod gan y practis sawl polisi ar waith i warchod cofnodion gofal deintyddol cleifion a gwybodaeth bersonol arall a gedwir gan y practis. Roeddent yn cynnwys y Polisi Diogelu Data a pholisi Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)<sup>23</sup>. Roedd polisi rheoli cofnodion priodol ar waith hefyd ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

---

<sup>22</sup> Mae Matrics Aeddfedwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn adnodd datblygu ymarfer ar gyfer y tîm deintyddol cyfan sy'n helpu timau deintyddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion

<sup>23</sup> Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n nodi'r canllawiau ar gyfer casglu a phrosesu gwybodaeth bersonol gan unigolion sy'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd. Gan fod y rheoliad yn berthnasol waeth ble mae'r gwefannau wedi'u cadw, rhaid i bob safle sy'n denu ymwelwyr Ewropeaidd ei ystyried, hyd yn oed os nad ydynt yn marchnata nwyddau na gwasanaethau i breswylwyr yr UE.

Roedd cofnodion cleifion wedi'u storio'n electronig ar gyfrifiaduron sydd wedi'u gwarchod gan gyfrinair. Roedd copiau o'r cofnodion electronig hyn yn cael eu cadw wrth gefn yn rheolaidd, fel bod y data'n gallu cael ei gyrchu pe bai cyfrifiadur yn methu.

### Cadw cofnodion

Gwelsom dystiolaeth fod arferion rhagorol gan y practis o ran cadw cofnodion. Roedd y nodiadau'n fanwl gywir, yn gynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu'n gyfoes. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion asesiadau cleifion a chynlluniau ar gyfer triniaeth yn ogystal â thriniaeth a ddarparwyd yn ystod yr apwyntiad a'r caniatâd. Nodwyd hanes deintyddol a chymdeithasol hefyd ynghyd â hanes meddygol hanesyddol diweddaedig.

Roedd y polisi rheoli cofnodion yn dangos bod rhaid cadw cofnodion deintyddol am wyth mlynedd o leiaf, ac roedd yr holl gofnodion wedi cael eu cadw'n ddiogel.

Gwelsom nad oedd cwestiynau sgrinio mewn perthynas â COVID-19 wedi'u cynnwys yn y cofnodion gofal deintyddol. Gwnaethom argymhell bod y cofnodion gofal deintyddol yn cynnwys y wybodaeth hon.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod atebion i'r cwestiynau ynghylch COVID-19 yn cael eu cofnodi yng nghofnodion gofal deintyddol y cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o arferion rheoli ac a'r arweinyddiaeth yn y practis.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'u corff deintyddol ac ymddengys eu bod yn hapus ac yn cael cefnogaeth yn eu rolau.

Roedd gan y practis dîm rheoli effeithlon ac roedd rheolwr y practis yn cael cefnogaeth dda gan y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r rheolwr cofrestredig<sup>24</sup> a'r unigolyn cyfrifol<sup>25</sup> yn berchen ar Bractis Deintyddol Cedars ar y cyd, ac mae'r ddau yn gweithio yn y practis mewn rôl glinigol. Caiff y practis gefnogaeth dîm o staff clinigol, y mae un aelod ohono yn rheolwr ar y practis ac yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Gwelsom dystiolaeth fod y gwaith rheoli ac arweinyddiaeth o safon ragorol a bod llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom staff yn cydweithio'n dda, roeddent yn cymryd rhan weithredol yn y broses arolygu ac yn cyfathrebu'n dda â'r cleifion a'u cydweithwyr.

---

<sup>24</sup> ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

<sup>25</sup> ystyr "unigolyn cyfrifol" yw unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu'n swyddog arall yn y sefydliad ac sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o reoli practis deintyddol preifat;



Roedd gan y practis ystod eang o bolisiâu a gweithdrefnau lleol i sicrhau bod y staff a'r cleifion yn ddiogel, a datganiad o ddiben diweddaedig a thaflen wybodaeth i gleifion. Gwelsom fod y dogfennau hyn wedi cael eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau a bod y staff yn cael gwybod amdanynt yn ystod eu proses sefydlu.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn deall y broses o adrodd am ddigwyddiadau i AGIC. Roedd hyn yn cynnwys beth i'w wneud pe bai achos difrifol o glefyd heintus (ee COVID 19).

Gwelsom fod tystysgrif o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi'i harddangos yn yr ystafell aros ynghyd â'r poster lechyd a Diogelwch yn y Gweithle a roddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Gwelsom dystiolaeth fod bob aelod parhaol o'r tîm deintyddol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd eu tystysgrifau aelodaeth wedi'u harddangos yn yr ystafell aros i'r cleifion eu gweld. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif wedi'i harddangos ar gyfer un clinigwr ymweliadol sy'n cael ei gyflogi'n rheolaidd gan y practis. Argymhellwyd yn ystod yr arolygiad y dylid unioni hyn fel bod y cleifion yn cael sicrwydd bod yr holl ddeintyddion yn y practis wedi'u cofrestru'n gywir gyda'u corff llywodraethu.

Gwnaethom adolygu'r ffeiliau personél a gweld bod gan yr holl staff parhaol yn y practis dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd<sup>26</sup> a oedd yn cynnwys gwiriadau ar gyfer gweithio gyda phlant ac oedolion. Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi'u gwneud yn cynnwys mynd ar drywydd geirdaon, roedd gwiriad statws indemnio a statws imiwnedd rhag hepatitis B wedi'u gwneud ac roedd hyfforddiant gorfodol y staff yn gwbl gyfredol ac yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod newidiadau i bolisiâu, gweithdrefnau ac adborth gan gleifion. Gwelsom

---

<sup>26</sup> Mae gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn broses a ddefnyddir gan gyflogwyr a sefydliadau i gael darlun clir o gofnod troseddol unigolyn.

dystiolaeth fod cofnodion wedi'u cymryd ar gyfer y cyfarfodydd staff hyn. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn ffeil sy'n gwbl hygyrch i bob aelod o staff.

Nodwyd bod arfarniadau rheolaidd yn cael eu cynnal i'r holl staff. Roedd gan y practis bolisi recriwtio cadarn ar waith hefyd ac ymddengys fod y staff yn hapus ac yn cael cefnogaeth yn eu rôlau.

Er nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ffurfiol eto, dywedwyd wrthym y byddent yn mynd ar drywydd hyn er mwyn gwella arferion arweinyddiaeth a rheolaeth yn y practis ymhellach.

Roedd y lefelau staffio yn foddhaol ac roedd staff a oedd wedi cael hyfforddiant addas yn y practis bob amser er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ac roedd y staff yn deall sut i godi pryder pe bai angen.

Roedd y practis yn cyflogi clinigydd arbenigol fel aelod o staff ymweliadol. Roedd hyn yn golygu bod yr unigolyn yn mynychu'r practis ar sail "ad-hoc" i roi triniaeth neu wasanaeth arbenigol fel bo'r angen.

Yn ystod yr arolygiad nodwyd nad oedd gan y clinigydd ymweliadol dystysgrif ddiweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, na contract cyflogaeth ffurfiol na hyfforddiant sylfaenol diweddar ar gyfer cynnal bywyd. Nid oedd wedi cael hyfforddiant diweddar ychwaith ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn agored i niwed. Mae angen unioni hyn ar unwaith.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis yn meddu ar y dogfennau canlynol:

- Tystysgrif fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithio gyda phlant ac oedolion
- Contract cyflogaeth a swydd-ddisgrifiad
- Hyfforddiant sylfaenol diweddar wedi'i gwblhau bob blwyddyn
- Hyfforddiant i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle y gwnaethom roi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae'r arolygiadau o bractis deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae gwasanaethau'n derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Diben hyn yw fel bod trefniadau'n gallu cael eu gwneud i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ôl yr arfer, ac fel bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion gyn lleied â phosibl.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae'r practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) ac, mewn achosion lle y darperir deintyddiaeth breifat, [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 2017](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Cedars

**Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Y camau sydd i'w cymryd	Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd o ddifffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Gemma Hawkins**

**Enw (llythrennau bras):Gemma Hawkins**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 14 Hydref 2021**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Cedars

**Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cleifion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny a bod y dymuniad hwnnw'n cael ei hwyluso.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; Rheoliad 13 (1) (a)	Ers yr arolygiad rydym wedi gosod ystod o wybodaeth a phosteri dwyieithog ac mae'r Deintydd Chris Truman wedi anfon copi Cymraeg o daflen ein practis at Jenna neu Sarah a oedd yn rhan o'r tîm arolygu.	Gemma Hawkins	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>Bod y datganiad o ddiben, y daflen wybodaeth i gleifion a'r polisi derbyn cleifion newydd yn cael eu diweddarau i</li></ul>	6.2 Hawliau pobl; Rheoliad 13 (1) (a)	Mae'r datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth y practis wedi cael eu diweddarau i amlinellu bod lifft cadair gennym i gleifion sy'n cael anhawster defnyddio'r grisiau, ond os bydd cleifion yn ddibynnonl ar gadair olwyn, gallwn eu	Gemma Hawkins	Wedi'i gwblhau



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>sicrhau bod cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn yn ymwybodol o'r heriau sydd yn y practis o ran cael mynediad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r polisi derbyn cleifion newydd yn cynnwys canllaw i staff o ran beth i'w wneud os na all y practis dderbyn claf oherwydd yr heriau mewn perthynas â mynediad e.e. eu cyfeirio at bractis arall.</li> </ul>		<p>cyfeirio at ein chwaer bractis yn Grangetown lle mae ystafell driniaeth ar y llawr daear, neu at y gwasanaeth deintyddol cymunedol.</p> <p>Fel uchod, mae'r polisi derbyn cleifion newydd wedi cael ei ddiweddarau.</p>		
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau ei bolisi cwynion er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC</p>	<p>6.3 Gwrando a dysgu o adborth, Rheoliad 21(4)(a)</p>	<p>Mae'r polisi cwynion wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost AGIC.</p>	<p>Gemma Hawkins</p>	<p>wedi'i gwblhau</p>
<p><b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b></p>				
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwadau i'r cynllun parhad busnes i gynnwys rhifau ffôn mewn argyfwng</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliad 22 (2)(a)</p>	<p>Mae rhifau ffôn mewn argyfwng a manylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a chyflenwadau wedi cael eu hychwanegu at gynllun parhad y busnes.</p>	<p>Gemma Hawkins</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant priodol a'u bod yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd am</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliad 13(4)(e)</p>	<p>Mae cyfarwyddyd ar waith ar gyfer adrodd am adwaith i gyffuriau gan ddefnyddio'r cynllun cerdyn melyn, ac</p>	<p>Gemma Hawkins</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>unrhyw adwaith anffaffriol i gyffuriau i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd gan ddefnyddio'r cynllun cerdyn melyn ar-lein.</p>		<p>rydym wedi ffeilio hyn yn ffeil y polisïau fel rhan o bolisi ein cynllun gweithredu mewn argyfwng.</p> <p>Rydym wedi cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol hefyd i gael unrhyw wybodaeth ychwanegol a byddwn yn ei rhoi ar waith ar ôl ei derbyn.</p>		
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y perygl baglu a achoir gan y cebl i'r uned sugno yn yr ystafell driniaeth yn cael ei gosod yn ddiogel.</li> </ul>	<p>2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliad 8(n) Rheoliad 22(2)(a)</p>	<p>Fel y trafodwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, rydym wrthi'n ailaddurno'r ystafelloedd triniaeth. Tra bod hyn yn digwydd rydym yn bwriadu symud yr unedau sugno fel nad ydynt yn achosi problem. Nes bod hyn yn digwydd mae'r cebl yn cael ei chadw'n fyr ac wedi'i rhwymo'n dynn fel nad yw'n peri risg o faglu.</p>	<p>Gemma Hawkins</p>	<p>Ar waith (31/03/22)</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r bod rhestrau gwirio Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio wrth ymgymryd â thriniaethau llawfeddygol neu echdyniadau syml.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol; Rheoliad 16(b)</p>	<p>Rydym wedi cysylltu â Dr Emyr Roberts yn y bwrdd iechyd lleol sydd wedi cytuno'n garedig i anfon y wybodaeth berthnasol a'r rhestrau gwirio atom er mwyn i ni eu defnyddio.</p>	<p>Gemma Hawkins</p>	<p>Ar waith (30/11/21)</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r tîm cofrestredig sicrhau ei fod yn llunio amserlen ar gyfer archwiliadau sy'n cynnwys archwiliad o roi'r gorau i ysmegu ac archwiliad o ragnodi gwrthfotigau.</p>	<p>3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi; Rheoliad 8(n)</p>	<p>Fel y trafodwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, roeddem yn aros am ddyddiad dechrau ar gyfer ein contract GIG a chytunwyd y byddem yn cysylltu ag AaGIC i gael yr archwiliadau hyn cyn gynted ag y bydd y contract ar waith.</p> <p>Mae Gemma Hawkins wedi cysylltu ag AaGIC ac wedi cyflwyno ffurflenni cais. Rydym yn aros am becynnau archwilio ar hyn o bryd.</p> <p>Rydym yn bwriadu cynnal archwiliad o ragnodi gwrthfotigau yn y lle cyntaf, yna rhoi'r gorau i ysmegu.</p>	<p>Gemma Hawkins</p>	<p>Ar waith 31/03/21</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod atebion i'r cwestiynau ynghylch COVID-19 yn cael eu cofnodi yng nghofnodion gofal deintyddol y cleifion</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion; Rheoliad 20(a)(ii)</p>	<p>Mae'r cwestiynau am Covid-19 yn cael eu hateb a'u cofnodi yn y dderbynfa. Maent ar dempledi un o'r deintyddion eisoes ond nid y llall; maent bellach wedi cael eu hychwanegu at dempledi'r deintydd hwn.</p>	<p>Christopher Truman</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis yn meddu ar y dogfennau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystysgrif fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithio gyda phlant ac oedolion</li> <li>• Contract cyflogaeth a swydd-ddisgrifiad</li> <li>• Hyfforddiant sylfaenol diweddar wedi'i gwblhau bob blwyddyn</li> <li>• Hyfforddiant i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.</li> </ul>	7.1 Gweithlu; Rheoliad 17(3)	<p>Mae hwn ar waith eisoes ac roedd yn weithredol ar y dydd i bob aelod o staff cyflogedig a'r deintyddion sy'n berchen ar y practis ac unrhyw un sy'n gweithio yn y practis o ddydd i ddydd.</p> <p>Roedd unrhyw gofnodion coll ar gyfer arbenigwr ymweliadol.</p> <p>Mae contractau ar gyfer arbenigwr ymweliadol a deintydd ymweliadol wrthi'n cael eu llunio.</p>	Gemma Hawkins	Ar y gweill 30/11/21

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Gemma Hawkins**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 12/11/2021**